OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2015 No. 1992

Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2015

RHAN 12

Amrywiol

Troseddau gan bartneriaethau a chymdeithasau anghorfforedig

43.—(1) Caniateir dwyn achos o dan y Gorchymyn hwn, am drosedd yr honnir ei bod wedi ei chyflawni gan bartneriaeth neu gymdeithas anghorfforedig, yn enw'r bartneriaeth neu'r gymdeithas.

(2) At ddibenion achos o'r fath—

(a) bydd rheolau llys ynglŷn â chyflwyno dogfennau yn cael effaith fel pe bai'r bartneriaeth neu'r gymdeithas yn gorff corfforaethol;

(b) bydd adran 33 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1925(**1**) ac Atodlen 3 i Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980(**2**) yn gymwys o ran y bartneriaeth neu'r gymdeithas fel y maent yn gymwys o ran corff corfforaethol.

(3) Mae dirwy a osodir ar bartneriaeth neu gymdeithas yn dilyn euogfarn am drosedd o dan y Gorchymyn hwn i'w thalu allan o gronfeydd y bartneriaeth neu'r gymdeithas.

(4) Pan brofir bod trosedd o dan y Gorchymyn hwn, a gyflawnwyd gan bartneriaeth, wedi ei chyflawni gyda chydsyniad neu ymoddefiad partner, neu y gellir priodoli'r drosedd honno i unrhyw esgeulustod ar ran partner, mae'r partner hwnnw (yn ogystal â'r bartneriaeth) yn euog o'r drosedd ac yn agored i'w erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(5) At ddibenion paragraff (4), mae "partner" ("*partner*") yn cynnwys person sy'n honni gweithredu fel partner.

(6) Pan brofir bod trosedd o dan y Gorchymyn hwn, a gyflawnwyd gan gymdeithas anghorfforedig wedi ei chyflawni gyda chydsyniad neu ymoddefiad swyddog i'r gymdeithas, neu y gellir priodoli'r drosedd honno i unrhyw esgeulustod ar ran swyddog i'r gymdeithas, mae'r swyddog hwnnw (yn ogystal â'r gymdeithas) yn euog o'r drosedd ac yn agored i'w erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(7) At ddibenion paragraff (6), ystyr "swyddog" ("*officer*") yw swyddog i'r gymdeithas neu aelod o'i chorff llywodraethu neu berson sy'n honni gweithredu mewn swydd o'r fath.

(**1**) 1925 p. 86. Diddymwyd is-adrannau (1) a (2) o adran 33 gan Ddeddf Llysoedd Ynadon 1952 (p. 55), adran 132 ac Atodlen 6; diwygiwyd is-adran (3) gan Ddeddf Llysoedd 1971 (p. 23), adran 56(1) ac Atodlen 8, rhan II, paragraff 19; diwygiwyd is-adran (4) gan Ddeddf Llysoedd 2003 (p. 39), adran 109(1) a (3), Atodlen 8, paragraff 71 ac Atodlen 10, a chan Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980 (p. 43), adran 154 ac Atodlen 7, paragraff 5; diddymwyd is-adran (5) gan Ddeddf Llysoedd Ynadon 1952, adran 132, Atodlen 6.

(**2**) 1980 p. 43. Diwygiwyd is-baragraff 2(a) gan Ddeddf Gweithdrefnau ac Ymchwiliadau Troseddol 1996 (p. 25), adran 47, Atodlen 1, paragraff 13, ac fe'i diddymwyd gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 (p. 44), adrannau 41 a 332, Atodlen 3, rhan 2, paragraff 51, is-baragraffau (1), (13)(a) ac Atodlen 37, rhan 4; diddymwyd paragraff 5 gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1991 (p. 53), adrannau 25(2) a 101(2) ac Atodlen 13; diwygiwyd paragraff 6 gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003, adran 41, Atodlen 3, rhan 2, paragraff 51, is-baragraffau (1) ac (13)(b).